# Setiau Radio Diogelwch

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

11 Tachwedd 2015

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 30 Hydref, pan wnaethoch ofyn:

> *Rwy'n gofyn, o dan y Ddeddf rhyddid gwybodaeth, am wybodaeth am yr asesiad risg a wnaed ar gyfer y setiau radio sy'n cael eu defnyddio gan staff diogelwch a staff Cynulliad Cymru.*

Nid oes gennym unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi mewn cysylltiad â'ch cais.

Er gwybodaeth, mae nifer fawr o'r setiau radio hyn yn cael eu gwerthu a'u defnyddio ledled y byd, nid yw'n ddarn o offer a fyddai fel arfer yn ofynnol cynnal asesiad risg ar gyfer ei ddefnyddio.

Mae gwneuthurwyr y setiau radio, Hytera, wedi'n sicrhau bod y setiau radio'n cydymffurfio â'r holl safonau perthnasol a oedd yn rhan o'r broses dendro ar gyfer prynu'r setiau radio. Roedd y telerau a'r amodau'n nodi: '*It shall be the duty of the Supplier to ensure that the Goods are safe and without risk to health when properly used*' a '*The supplier warrants that the Goods will comply with all relevant British Standards*'.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir


Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6455
E-bost/Email: Buddug.Saer@assembly.wales
Buddug.Saer@cynulliad.cymru


**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh**

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF